

WELSH 35.5 13

MARWNAD,

Er Cofadwriaeth

AM Y

PARCH. B. DAVIES,

O'r Ffynnon, Swydd Benfro;

Yr hwn a ymadawodd â'r byd hwn Awst 16, 1828,
YN 53ain OED.

*Bu yn Weinidog gydag y Bedyddwyr Neilltrefl,
3lain o flynyddau.*

GAN DANIEL OWEN.

O FRODYR a chwiorydd,
Sydd yma'n ngwlad y cystudd;

Gwrandewch alarnad,
Ein dyddiau ar y ddaear,
Sy'n llawn o wae a galar,
A throion anfad.

Bob dydd, newyddion minion sydd

Yn clwyfo'n teimlad
Am ryw ddygwyddiad

Naill yn ein profiad:

Neu mewn amgylchiad pradd;

Yn ein hachosion bydol

Neu ynto deulu'r fydd.

Ein bron, ryw brydiau sydd yn lfon,

Gan hyfryd newydd,

Yn achos crefydd,

Bydd gwir lawenydd;

Am gyunydd hyfryd hon:

Ond nawr fe dreiglodd galar

Dros lawer megis ton.

2 Mae crybwyll am yr enw,

Sydd nawr o dan ein sylw,

Yn ergyd treiddiol:

Ond dyma fel mae peihau,

Lle mae cyfnewidiadau,

Mewn byd symudol:

Er maint yw defnyddioldeb saint;

Ond dwfn arfaeth

Y Daw tra odiaeth

Sy'n cym'ryd ymaith

(Rhaglaniaeth fawr ei maint!)

Fel gallem ni i dybied

Eu harbed fyddai'n fraint.

Ond nawr, mae galar dros ein gwawr,
 Benjamin Davis,
 Weinidog dawnus,
 'Madroddwr medrus;
 Gwr hwylus ac un mawr,
 Ffarwelodd a thrallodau
 A holl gystuddiau'r llawr.

3 Cyfododd faner Iesu,
 Yn gynnar iawn o ddfiri,
 Fel milwr ffyddlon;
 Fe ro'dd ei ddyddiau goreu
 I draethu ei rinweddau,
 Hyn oedd ei goron.
 Ei ddydd, a roddodd yn ddiludd,
 I draethu cloddyd
 Yr Oen tragwydd,
 Mewn duwiol awydd,
 Yn ufudd iawn a rhydd,
 Fe gofir am ei ymdrech
 Gan lawer pryd na bydd.
 Bu'n was, o'r dewraf ar y maes,
 Dros D'wysog heddwch,
 Mewn mawr ddfrifwch:
 Cael i ddiogelwch,
 Ac edifeirwch gras
 Ei holl wrandawyr tawel
 Gan adael pechod cas.

4 Wrth ddweud am Davies hynod,
 Rwy'n teimlo f' hun yu darfod,
 Gan hiraeth parchus.
 Fe gollwyd athrawiaethwr,
 Ac un a drinia'i'r cyflwr,
 A'r meddwl clwyfus.
 Ei iaith, gyfeiria'i ar un waith,
 At rai fai'n cloffi
 Ac yn pryderu
 Am ddilyn Iesu;
 A glynu wrth ei waith
 Un gwych i adeiladu,
 Y gweiniaid ar eu taith.
 Ond faint, o'i gadw fuasai o fraint,
 Fe gadd ei symud
 I dir y bywyd,
 Syn llawn o wynfyd:
 Mewn iechyd gyda'r saint;
 I wlad sy'n llawn llawenydd,
 Tragwydd heb un haint.

- 5 Wrth ddweud fel hyn am dane,
 Nid wyf fi yn petruso,
 Nadfyw wirionedd.
 Os cadwyd neb o ddyinion,
 Anturiaf ddweud yn eo'n
 Mai dyna ei ddiwedd,
 Mai'n wir, y bydd y nefol dir,
 Yn rhyfeddodau,
 Am amryw bethau,
 I'n gwael feddyliau,
 Ar ol ein teithian a'n eur:
 Dros oesoedd tragwyddoldeb
 Os meddwn galon bur.
 O hyd, roedd cryndod yn ei bryd
 Yngladdedigaeath,
 Pawb o'i gym'dogaeth,
 Aneu hachubiaeth,
 A'u hiechydwrïaeth ddrud;
 Ysgydwodd ofnau ei hunan
 Ein hofnau bant i gyd.
- 6 Un mawr i garu'r brodyr
 Oddiar egwyddor gywir,
 Oedd Davis dduwiol;
 Dilynai'r cyrddau gweddi,
 Un amser'ni bai'n colli
 Y shaif wythnosol;
 Ei le, yn wastad lanwai fe,
 Mewn cwrdd cwestiynau,
 Am ddyrus bethau;
 Fe roddai oleu:
 Esboniai bethau'r ne',
 Fe allai na fedd Prydain,
 Yn hyn mo'i amgen e.
 Ond nawr, y ganwyll dambaid fawr:
 A chwythwyd allan
 Gan angeu diran,
 Nid yw'ef weithian;
 I ymddyddan ar y llawr,
 (Ond trwy ei holwyddoreg)
 Fe aeth ei haul i lawr.
- 7 Ei obaith'oedd yn unig
 Yr Iesu croeshoeliedig
 Wrth fyw a marw,
 Y groes oedd 'i ymfrost bena',
 Ac yn ei oriau ola,
 Trodd iddo'n elw.
 Ei gur, ni adawodd iddo'n wir,

F roi tystiolaeth
 O'i waredigaeth
 Wrth fyned ymaith;
 Ond gobaith oedd yn bur,
 Y cai fod gyda'i gwm'ni
 I dragwyddoldeb hir.
 Fel hyn, mae'n aml yn y glyu;
 Y dyoddefadau,
 A loeson angau,
 A dirfawr boenau,
 Grususau ni chant ddim,
 Amlygu fawr i'r enaid
 O'r cariad mwya ei rym.

8 Fel ysgol-feistr tyner
 Y Pflannon am hir amser
 Cadd glod a chariad;
 Fe ddysgodd blant tylodion
 Yn rhad slynyddau hirion
 Heb un gwrth'nebiad:
 Fe fu, yn cynnorthwyo llu
 O rai mewn gobaith
 I'r weinidogaeth
 Rhodd gryn ddysgeidiaeth,
 Annogaeth roddi i ni
 I ddyfod yn ddefnyddiol
 Tra yn y byd y bu.
 I'r rhai y newydd yn ddiau
 A fydd yn ddolur,
 Fod eu hen feistr
 A fu mor gywir,
 Fe deimlir yn ddilai,
 A hyn mewn modd gofidus
 Fod Davis yn y clau.

9 Un rhyfedd oedd fel beirniad,
 I ddafa craff mewn cariad,
 Beth na fai'n gywir.
 Ei synwyr oedd mor dreiddiol
 Mewn pethau ysgrythyrol
 A neb a welir,
 Ei lais, oedd wanaidd yn barhaus,
 Ei gorff yn nychlyd
 O eisiau iechyd
 Yn hyn o fywyd,
 A diwyd, (dyna'i gais)
 Ond enaid gwell oedd ganddo
 Heb deimlo'r cyfryw drais,
 Fel hyn, ei ddefnyddioldeb syn,
 I ei gym'dogaeth,

A'i eglwys odiaeth,
 A'i hoff gydymaith;
 Yn ddiwahaniaeth llyn,
 Barhaodd lai nag wythnos
 Nes daeth yr achos hyn.

10 Fe rodiodd megis crïstion
 Ar ol y cwmwl tystion,
 Mewn dwys amynedd:
 Nis hoffodd bwys na phechod,
 Y pethau sydd yn barod,
 I dd'od i'r orsedd.
 Yn hŷ, fe gym'rodd arfau cry,
 Fe wnaeth wrolwaith;
 Do fwy'nag unwaith,
 Yn nerth ei Bennaeth,
 Ar anghrediniaeth sy
 Yn clwyfo y credadyn
 Wrth deithio'r dyffryn du.
 Ei fryd oedd am orchfygu'r byd,
 A'r holl elynion
 Sydd ynddo'n gyson
 Am 'speillio'r crïstion
 O'i hoff gysuron trud;
 O'r diwedd fe orchfygodd
 Y llengoedd hyn i gyd.

11 Y fynyd pan fu farw,
 Meddyliaf gall'sai'n groyw
 Roi ffarwel hynod,
 I'w frodyr a'i chwiorydd
 Ar ol yn ngwlad y cystudd
 A'r gwae a'r pechod,
 Boed gwych, y ffynnon nid a'n sych
 Y lle areithio,
 A'r man bedyddio,
 A'r Bwrdd cymuno,
 A'hwylio'r mawl yn glych:
 Ffarwel i ddynion luoedd
 Barhaodd a'i gruddiau'n sych.
 Yn awr, canfyddaf ddorau'r wawr,
 Yn dechreu torri
 Ar wlad goleuni
 Lle mae fy nghwm'ni,
 Fu geny' ar y llawr
 Ddymuniad am eu mwyniant
 Mewn pur ogoniant mawr.

12 Pan canfu ef ei hunan
 Yn mhlith y dyrfa gyfan

Fe fawr ryfeddodd,
Fod braint mewn lle mor uchel
I rai a fu mor isel

Yn y dyfnderoedd.
Er hyn, ei delyn ro'dd yn dŷn,

Dechreuodd ganu
Yn un â'r cwm'ni
I'w geidwad Iesu,
Am waedu ar y bryn;

Cael bod ei hunan yno
Oedd iddo'n feddwl syn.

Yn mhlith y dyrfa rif y gwllith
Mae'i yspryd tawel
Yn mhell o'r rhyfel
Yn hollol ddiogel,

Yn ngafael gwynfyd syth;
Heb ofni colli'r hwyliau,
Na gwenau'r Iesu byth.

13 Rwy'n caru nef y nefoedd
Yn llawer mwy yn rhywfodd
Er pan aeth yno.

Os nad wy'n twyllo f' hunan,
Dymunwn yr un gyfran
I mi yn eiddo.

Diri', yw'r brodyr anwyl sy',
Yn ngwlad goleuni
Yn awr yn canu

Am gael eu caru,
A'u prynu ar galfari,
Heb elyn yn eu blino

Yn uno gyda'r llu.
Cael byw, yn hyfryd deulu Duw,
Lle mae duwiolion

Er Abel gyfion,
Merthyron dewrion,
A gweinidogion gwiw:

Lle na ddaw brad na thramgwydd,
Nag allwydd o unrhyw.

14 Ei angladd ef drachefn,
A ddylem roi mewn trefn,
Mae'n gofus genym,

Yn Parcau teg areithiwyd
Yn wresog ac yu astud
Gan Jones Rhydwylym.

A'r llu, a aethant tua thy
Y Ffynnon wiwglod,
Lle 'roedd y beddrod

Yn drefnus barod;

I'w osod gyda'r llu,
 O'i frodyr a'i chwirydd
 Yn gorwedd yno sy',
 Ar hyn, pregethu wnaed yn syn,
 Gan gyfaill iddo,
 Fu'n cyd-filwrio,
 A chyd-weddio,
 Cyd-wylo yn y glyn;
 Sef Thomas Williams Salem,
 Rhodd hamdden in' ar hyn.*

15 Gadawodd wraig alarus
 Ar ol mewn anial dyrus,
 A dau ymddifaid.
 Ac Eglwys heb un bugail
 I sefyll yn y rhyfel
 Yn erbyn bleiddiaid;
 O Dduw, bydd iddynt noddfa wiw,
 A gwna'th addewid
 Yn hyn o fywyd
 Eu mawr galondid,
 Yn ngwyneb gwendid clyw
 Eu taerion ddeisyfiadau
 Tra yn y byd yn byw.
 Dy hedd, fo'n rhan tu yma i'r bedd,
 A hyfryd lwyddiant
 Fyn'd tua'r gogoniant
 Gan draethu'th foliant,
 Boed flynniant i dy gledd
 Yn nwylaw y ddau gymwys
 Yr eglwys nawr a fedd.

16 Fel hyn ni roddwn sfarwel
 I un gweinidog tawel
 O eiddo'r Iesu;
 Fu dair ar ddeg ar hugain,
 O faith flynyddau cyfain
 Yn efangylu,
 Ond mwy, does dim ond teimlo clwy
 Gan wŷr Cwmfelin,
 A thref Caerfyrddin,
 Lle bu'n offeryn
 Yn ddiffin meddynt hwy,
 I wneuthur mawr ddaioni
 Wrth ddweud am Iesu a'i glwy',
 O'i waith, i dderbyn gwobr aeth,
 Sydd wedi ei haddo
 Gan Frenin Silo
 I bawb fu drosto,

* Job 19. 25, 26, 27.

'N llafurio ar eu taith;
Fel hauliau 'ngwlad gogoniant
Y byddant oesoedd maith.

17 Yn moreu'r adgyfodiad
Fel welir cyfnewidiad
Tra rhyfedd arno;
Wrth ddyfod gyda'i Farnwr,
Fe genfydd beth fydd cyflwr
Rhai fu'n eu wrando.
Amen, a glywir maes o'i ben,
Fel tyst tra flyddlon
Yn erbyn dynion,
Fu'n anufuddion,
I orch'mynion pur y nen,
Fel hyn y rhai annuwiol
Raid derbyn marwol sen,
Ond fry, fe genfydd ddirfawr lu,
O'i frodyr hawddgar
Fu ar y ddaear,
Yn yr un carchar,
Yn teimlo galar cry',
Rhai hyn a hoff gyflwyna
O flaen Jehofa'n hy.

18 Mor hyfryd yw i oesi
Yn ninas dawl Iesu,
Mewn hedd dilwgr,
Un dolur byth nis teimlir,
A'r teulu oll yn gywir,
Heb un yn fradwr.
Fydd un or dorf yn gloff o glyn,
Na Joseph hawddgar,
Yn rhwym mewn carchar,
Fel ar y ddaear,
Mewn galar ni bydd dyn;
Yn medduhwylliau, nefol,
I ganmol Daw ei hun.
Gwyn fyd a ddygwyd maes o'r byd,
Eu deigrau sychwyd,
Eu poen iachawyd,
Eu brynti olchwyd,
Fe'u kannwyd oll i gyd,
Trwy'r gwr fu'n Gethsemane,
A'i faith rinweddau trud.

DIWEDD.

Argraffwyd gan Isaac Thomas, Aberteifi.